# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Meeting Room 4B, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Mai 2025

Amser: 09.01 - 09.13

# Private, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Damien Roche, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod wedi ysgrifennu at y tri Aelod nad ydynt yn aelodau o grwpiau gwleidyddol, er mwyn esbonio eu hawliau o dan Reol Sefydlog 11.3 ynglŷn â chymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Busnes.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Cyfnod 3 o Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (~~180~~ 240 munud)

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn trafodion Cyfnod 3.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.50pm.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd y bydd toriad o 10 munud yn cael ei gymryd rhwng y Cyfnod Pleidleisio a dechrau trafodion Cyfnod 3. Nododd y Llywydd y byddai'n caniatáu toriad 10 munud arall yn ystod Cyfnod 3 pe bai'r Aelodau sy'n arwain y trafodion hynny'n gofyn amdano.

Dydd Mercher

Gofynnodd Paul Davies i Gadeirydd newydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael ei enwebu'n aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog. Felly, rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)
- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 13 Mai 2025**

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Fframwaith Gwydnwch Cymru a'r Cynllun Cyflawni (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Diweddariad ar Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (45 munud)
- ~~Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Camau Gweithredu 2025-26 i Wella Iechyd a Gofal (45 munud)~~ – *wedi'i ohirio tan 3 Mehefin*

**Dydd Mawrth 20 Mai 2025**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Blaenoriaethau Diwylliant (45 munud)
- ~~Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Amseroedd Aros a Blaenoriaethau 2025/26 (45 munud)~~ – *wedi'i ohirio tan 3 Mehefin*

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd i drefnu'r eitemau a ganlyn ar Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 4 Mehefin 2025 –**

- Dadl ar ddeiseb P-06-1476: Clustogfa orfodol 1000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a phresennol (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: John Griffiths (Dwyrain Casnewydd) (30 munud)

### 3.4 Dadleuon Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a chytunodd i amserlennu'r cynnig a ganlyn ar 14 Mai 2025:

**Luke Fletcher**

**NNDM8812**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod diffodd tân yn gwneud unigolion yn agored i elifion carsinogenaidd, gan gynnwys bensen a tholwen, sy'n cynyddu'n sylweddol y cyfraddau marwolaethau ymhlith diffoddwyr tân o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol;

b) gwaith Asiantaeth Ryngwladol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ymchwil ar Ganser a’i dosbarthiad o ganser ymhlith diffoddwyr tân fel perygl galwedigaethol Grŵp 1;

c) bod gwledydd megis yr Unol Daleithiau, Canada ac Awstralia wedi cydnabod yn swyddogol y cysylltiad rhwng dod i gysylltiad ag elifion gwenwynig a mwy o achosion o ganser;

d) ymgyrch 'DECON' Undeb y Brigadau Tân a’i hymdrechion hanfodol i helpu diffoddwyr tân i leihau eu cysylltiad niweidiol â halogyddion.

2. Yn cydnabod canfyddiadau ymchwil wyddonol dan arweiniad yr Athro Anna Stec yng Nghanolfan y Gwyddorau Tân a Pheryglon, Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn, a gomisiynwyd gan Undeb y Brigadau Tân, sy’n datgelu bod diffoddwyr tân rhwng 35 a 39 oed a arolygwyd yn wynebu cyfradd canser sy'n benodol i oedran hyd at 323 y cant yn uwch na phoblogaeth gyffredinol yr un grŵp oedran.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydweithio ag Undeb y Brigadau Tân, gwasanaethau tân ac achub, ac arbenigwyr blaenllaw ym maes tocsicoleg tân i liniaru effeithiau elifion carsinogenaidd ar ddiffoddwyr tân yng Nghymru;

b) sefydlu rhaglen iechyd ataliol i fonitro a chofnodi cysylltiadau ar gyfer pob diffoddwr tân yng Nghymru, gan gynnwys profion sgrinio canser blynyddol fel safon ofynnol;

c) alinio Cymru ag arferion gorau rhyngwladol o ran diogelu iechyd diffoddwyr tân.

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gwneud cais i Aelodau'r Pwyllgor gael ymgymryd â busnes y pwyllgor yn Slofenia

Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y cais i aelodau’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus fod yn absennol o fusnes y Cyfarfod Llawn ar 7 Mai i ymgymryd â busnes y Pwyllgor yn Slofenia.

**4.2 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn gwneud cais am ddadl**

Derbyniodd y Pwyllgor Busnes gais i drefnu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar *P-06-1494 Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid mewn addysg rhag toriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol*.

## 5 Gwaith Gweithdrefnol

**5.1 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch ei ymchwiliad i atebolrwydd Aelodau unigol o'r Senedd**

Nododd y Pwyllgor Busnes argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei adroddiadau diweddar ar adalw a thwyllo bwriadol yng nghyd-destun ei raglen waith weithdrefnol am y cyfnod sy'n weddill yn nhymor y Senedd bresennol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i aros am gynigion deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a rhagor o gynigion manwl gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas ag argymhellion 8 a 9 yn ei adroddiad ar dwyllo bwriadol.

## 6 Unrhyw fater arall

**Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru: Trefniadau cadeirio**

Cododd y Llywydd fater trefniadau cadeirio Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru gyda Rheolwyr Busnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod dilynol.